# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(250)v3

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar broses Dydd Gŵyl Dewi (45 munud)**

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (5 munud)**

**NDM5706 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 11

b) Atodlen 1

c) adrannau 12-14

d) Atodlen 2

e) adrannau 15 - 31

f) Atodlen 3

g) adrannau 32 - 44

h) Atodlen 4

i) adrannau 45 - 55

j) adran 1

k) teitl hir

**5 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015 (15 munud)**

**NDM5704 Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru )**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, yn cytuno i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2014.

Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2014.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgorau Cynghori ar Blaladdwyr) 2015 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Esboniadol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Troseddu Difrifol (Memorandwm Rhif 4): Camfanteisio'n rhywiol ar blant ac adrodd gorfodol ynghylch anffurfio organau rhywiol merched (30 munud)**

**NDM5705 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddu Difrifol sy'n ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol a'r drosedd o loetran neu lithio at ddibenion puteindra, a gosod dyletswydd ar amrywiol weithwyr proffesiynol i roi hysbysiad am achosion a nodir o anffurfio organau cenhedlu benywod a phŵer cysylltiedig i wneud canllawiau statudol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Gellir cael copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

http://services.parliament.uk/bills/2014-15/seriouscrime.html (Saesneg yn unig)

**Dogfen Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**7 Cyfnod pleidleisio**

**8 Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (240 munud)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**1. Trais yn erbyn Menywod a Phlant**

54, 55, 56, 64

**2. Sefydliadau addysg bellach ac uwch - cyngor a chanllawiau**

22, 24, 17, 53

**3. Ystyr “swyddogaethau perthnasol”**

21, 23

**4. Dyletswydd i roi sylw i’r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

1

**5. Hawliau dioddefwyr**

57

**6. Strategaethau cenedlaethol a lleol- anghenion rhywedd-benodol**

69, 72

**7. Strategaeth genedlaethol - rhaglenni i dramgwyddwyr**

70, 71

**8. Strategaethau lleol - gweithredu**

2, 3, 4

**9. Addysg am berthnasoedd iach**

5, 6, 7, 11, 58

**10. Dyletswyddau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir**

59

**11. Dangosyddion Cenedlaethol**

8, 9, 10,

**12. Adroddiadau cynnydd blynyddol**

12, 68

**13. Canllawiau statudol**

13, 67, 65, 14, 15, 16

**14. Cynghorydd Gweinidogol**

25-32, 18, 62, 33-52, 20

**15. Swyddogaethau’r Cynghorydd Gweinidogol**

60, 61, 19

**16. Dileu’r amddiffyniad cosb resymol**

66

**17. Ystyr camdriniaeth**

63

**Dogfennau Ategol**
Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol fel y'i Diwygiwyd
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Chwefror 2015 i'w hateb ar 3 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi diwydiant dur cynaliadwy yng Nghymru? OAQ(4)2149(FM)

**2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu canolfan gofal dwys newyddenedigol isranbarthol yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)2137(FM)

**3. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)2151(FM)

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol? OAQ(4)2139(FM)

**5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y bydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i weithredu argymhellion adroddiad yr Athro Graham Donaldson? OAQ(4)2144(FM)**W**

**6. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella trafnidiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2142(FM)

**7. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl caeau chwarae o ran bodloni amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lles? OAQ(4)2148(FM)

**8. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bryderon a godwyd ynghylch ysgol reolaeth Prifysgol Abertawe? OAQ(4)2138(FM)

**9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gryfder y sector TGCh yng Nghymru? OAQ(4)2140(FM)

**10. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer yr ardaloedd Dechrau'n Deg yng Nghymru? OAQ(4)2141(FM)

**11. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o sylwadau Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru nad oedd penderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn bodloni'r diffiniad o benderfyniad brys? OAQ(4)2147(FM)**W**

**12. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru yn gwella de-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2143(FM)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Sut y bydd y Prif Weinidog yn sicrhau y bydd pedwaredd raglen ddeddfwriaethol arfaethedig y Cynulliad yn cael ei chwblhau erbyn 2016? OAQ(4)2146(FM)**W**

**14. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar dlodi yng Nghymru? OAQ(4)2145(FM)

**15. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog adrodd ar drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi? OAQ(4)2150(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2015 a dydd Mercher 4 Mawrth 2015**
**Dydd Mawrth 10 Mawrth 2015 a dydd Mercher 11 Mawrth 2015**
**Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015 a dydd Mercher 18 Mawrth 2015**

**Dydd Mawrth 10 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2014-15 (30 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 11 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i ailgylchu yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud) - *gohiriwyd o ddydd Mercher 4 Mawrth 2015*

**Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid (30 munud)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015 (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013-2014 (60 munud)
- Dadl ar Gyflog Cyfartal (60 munud)

**Dydd Mercher 18 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)<br>(60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y diweddaraf ar gamau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2015 (30 munud)
- Gorchymyn Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Dynodi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cymwysterau Cymru (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol ar Fesur Cymwysterau Cymru (5 munud)

**Dydd Mercher 25 Mawrth 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)